# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Iau, 17 Ionawr 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd
B Hale, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa’r Arweinydd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 am - 10.45 am

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 19 RHAGFYR 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2018 yn gofnod cywir.**

**3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai’r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.**

**4. CRONFA LIFOGYDD BUSNESAU SIR GAERFYRDDIN**

**Yn dilyn cynnal y prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r bobl a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol geisiadau am gymorth o Gronfa Lifogydd Busnesau Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Lifogydd Busnesau Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| Yr Ymgeisydd | Y Dyfarniad |
|---|---|
| Siop Iago, Castellnewydd Emlyn | £1850.00 |
| Arwerthwyr Peter Francis, Caerfyrddin | £844.00 |
| Steve Jones Car Sales, Caerfyrddin | £4,999.00 |
| GMJ Body Repairs, Caerfyrddin | £1544.45 |

## 5. CRONFA CYCHWYN BUSNES/TWF BUSNES SIR GAERFYRDDIN

**Yn dilyn cynnal y prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Yn dilyn cofnod 2 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2018 ystyriodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol gais am gymorth o Gronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin. Dywedwyd hefyd mai nifer y swyddi sy'n debygol o gael eu creu o ran Grant Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a gymeradwywyd yn flaenorol i Welshtastic fyddai 1 swydd amser llawn ac nid 2 swydd amser llawn ac 1 swydd ran-amser fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Roedd y cais yn bodloni meini prawf y grant o hyd.

**PENDERFYNWYD**

**5.1 cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o Gronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Morgan La Roche | £8040.54 |

**5.2 cadarnhau'r grant o £1549.93 a roddwyd i Welshtastic yn flaenorol o Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin.**

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD